# LLOYD, HANNIBAL EVANS (1771 - 1847), awdur a chyfieithydd

**Enw:** Hannibal Evans Lloyd
**Dyddiad geni:** 1771
**Dyddiad marw:** 1847
**Priod:** Lloyd (née von Schwartzkopff)
**Rhiant:** Henry Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** awdur a chyfieithydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd yn Llundain, yn fab i Henry Lloyd o Gwmbychan, fferm ym mhlwyf Llanbedr, Sir Feirionnydd. Yr oedd ei fam yn un o ddisgynyddion Garnetts sir Efrog. Collodd ei rieni pan oedd yn ieuanc, a magwyd ef gan berthnasau. Yn 1800 ymsefydlodd yn Hamburg yn yr Almaen, ac yn ddiweddarach ymladdodd yn amddiffyniad y ddinas honno yn erbyn y Ffrancwyr. Dychwelodd i Loegr yng Ngorffennaf 1813 ac apwyntiwyd ef i swydd yn y swyddfa dramor. Bu yno hyd ei farw. Priodasai Fraülein von Schwartzkopff, Hamburg. Bu farw 15 Gorffennaf 1847. Yr oedd yn ieithydd medrus ac yn ysgolhaig da. Efe oedd awdur *Hamburg or ... Transactions which took place in that city during the first six months of 1813*; *Alexander I, Emperor of Russia or Sketch of his Life*; *George IV, Memoirs of his Life and Reign*; *Descriptive and Historical Illustrations in English and French to accompany J. Coney's Architectural Beauties of Europe*; *Descriptive and Historical Illustrations to accompany J. M. W. Turner's Picturesque Views in England and Wales*; *Theoretischpraktische Englische Sprachlehre fur Deutsche, English and German Dialogues*. Golygodd a diwygiodd nifer mawr o weithiau hanesyddol a ieithyddol, a chyfieithodd lawer o lyfrau hanesyddol a theithiol yn Saesneg.

## Awdur

**Griffith Milwyn Griffiths**

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*British Museum. Catalogue of Printed Books* (1882)

H. Blackwell, NLW MS 9265A: A Dictionary of Welsh Biography

*The Gentleman's Magazine*, 1847


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 7635024

Wikidata: Q15994587

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Rhannu